**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**
**Menywod a'r system gyfiawnder**
**Dydd Gwener 17 Mawrth 2023, drwy gyfrwng Zoom, 11:30–12:30**

***Yn bresennol:***
*Siân Gwenllian AS*
*Rhianon Bragg (Siaradwr)*
*Joanne Starbuck, Cymorth i Ferched, Caerdydd*
*Sarah Thomas, Llwybrau Newydd*
*Jackie Jones, Menywod yn Ewrop (Cymru)*
*Jane Fenton-May, Cynulliad Merched Cymru*
*Nancy Lidubwi, Bawso*
*Leila Usmani, Cynghrair Hil Cymru*
*Carwen Wynne Howells*
*Leanne Waring, Coleg Caerdydd a'r Fro*
*Emma Hall, Chwarae Teg*
*Bethan Sayed, Climate Cymru*
*Allie Iftikhar, Cymorth i Ferched Cymru*
*Tomos Evans, Chwarae Teg*
*Megan Thomas, Anabledd Cymru*
*Christina Tanti, Race Equality First*
*Alison Parken, Ysgol Busnes Caerdydd*
*Carol Harris, Hafan Cymru*
*Jessica Laimann, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN Cymru)*
*Sioned Williams, WEN Cymru*
*Joy Matibiri, WEN Cymru*

***Ymddiheuriadau:***
*Janet Finch-Saunders AS*
*Llyr Gruffydd AS*
*Delyth Jewell AS*
*Sarah Murphy AS*
*Jane Dodds AS*
*Sioned Williams AS*
*Emma Henwood, Chwaraeon Cymru*
*Abi Thomas, Plaid Cymru*
*Dr Rachel Minto*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso, Ymddiheuriadau, Cyflwyniad –** Cadeirydd<br><br>Croesawodd Siân Gwenllian AS bawb i'r cyfarfod, gan nodi y byddai'r grŵp yn canolbwyntio ar fenywod a'u profiadau yn y system gyfiawnder. Nodwyd y byddai Rhianon Bragg, sydd wedi goroesi cam-drin domestig, yn rhannu ei phrofiadau o ran sut y gwnaeth y system gyfiawnder yng Nghymru gam â hi. |
| 2 | **Sut mae'r system gyfiawnder yn gwneud cam â'r rhai sy'n goroesi cam-drin domestig – Rhianon Bragg**<br><br>Eglurodd Rhianon ei bod wedi dioddef aflonyddu, stelcian, a gorfodaeth gan ei chyn bartner am gyfnod o bum mlynedd. Nododd hefyd fod naw mlynedd wedi mynd heibio ers i'r gamdriniaeth ddechrau. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd y system cyfiawnder troseddol wedi gwneud cam â hi ar sawl achlysur. Cafodd ei chais am wiriad o dan gyfraith Clare ei wrthod. Hefyd, er gwaethaf ymddygiad bygythiol y cyflawnwr tuag ati hi a'i phlant, dychwelodd yr heddlu ynnau iddo, gan roi Rhianon a'i phlant mewn perygl. Dywedodd ei bod wedi cyflwyno mwy na 24 o gwynion, a'i bod wedi cael gwybodaeth |

| | |
|---|---|
| | wallus am ei hawliau, gan gynnwys awgrym nad oedd ganddi hawl i apelio. Yn ogystal, cafodd adroddiad gan seicolegydd, a oedd yn cynnwys manylion ynghylch effaith y trawma arni hi a'i phlant, ei rannu'n â'r cyflawnwr a'i gyfreithiwr, a hynny ar gam. Dywedodd ei bod hi'n ofni y byddai'n cael ei ddefnyddio yn ei herbyn.<br>Rhannodd Rhianon nifer o argymhellion ynghylch yr hyn sydd angen ei newid o fewn y system cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau nad yw goroeswyr eraill yn dioddef profiadau tebyg:<br><br>• Dylid cael gwared ar yr agwedd 'codi ysgwyddau' o fewn y system gyfan. Mae angen sicrhau bod cam-drin domestig a stelcio yn cael eu cymryd o ddifri, yn enwedig gan uwch swyddogion yr heddlu ac yn y llysoedd;<br>• Mae angen gwella'r cyfathrebu sy'n digwydd rhwng adrannau a chyda dioddefwyr, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu am eu hawliau;<br>• Dylai pob aelod o staff gael eu hyfforddi mewn modd priodol, a dylent lynu wrth ddull sy'n seiliedig ar drawma;<br>• Dylid cael gwared ar gasineb tuag at fenywod o fewn y system cyfiawnder troseddol;<br>• Dylid hyfforddi swyddogion yn y llysoedd ynadon ar sut i ymdrin â cham-drin domestig a stelcian;<br>• Dylid cydnabod natur benodol cam-drin domestig a stelcian mewn lleoliadau gwledig;<br>• Dylid sicrhau bod system gymorth effeithiol ar gael i oroeswyr a'u teuluoedd;<br>• Dylid datganoli cyfiawnder a phlismona i Gymru er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o weithredu;<br>• Mae angen penodi Comisiynydd Goroeswyr i Gymru;<br><br>Fel argymhelliad cyffredinol, dylai'r system cyfiawnder troseddol roi blaenoriaeth i ddiogelu hawliau goroeswyr yn hytrach na hawliau cyflawnwyr, sef y sefyllfa yr ymddengys ei bod yn bodoli ar hyn o bryd. |
| **3** | **Trafodaeth a chwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol**<br><br>Diolchodd y Cadeirydd a'r rhai a oedd yn bresennol i Rhianon Bragg am ei chyflwyniad pwerus. Gwnaed nifer o sylwadau a gofynnwyd nifer o gwestiynau:<br><br>Nododd Siân Gwenllian y byddai mabwysiadu dull sy'n cael ei arwain gan ddioddefwyr yn hanfodol o ran sicrhau newid diwylliannol, systemig o fewn y system cyfiawnder troseddol. Nododd fod angen datganoli'r drefn hon er mwyn cyflawni hyn mewn modd cydgysylltiedig.<br><br>Dywedodd Jessica Laimann y byddai'r cam o ysgrifennu llythyrau at Weinidogion a'r comisiynwyr heddlu a throseddu yn un ffordd o weithredu.<br><br>Tynnodd Jackie Jones sylw at y ffaith y bydd yr etholiadau ar gyfer y comisiynwyr heddlu a throseddu yn cael eu cynnal ym mis Mai 2024, a nododd y byddai'n syniad da gwahodd ymgeiswyr i'r grŵp a gofyn iddynt gefnogi hyn. |

| | |
|---|---|
| | Cododd Megan Thomas yr heriau ychwanegol y mae menywod anabl yn eu hwynebu yn sgil diffyg mannau lloches hygyrch, a'r ffaith bod cyflawnwyr weithiau'n gofalu amdanynt.<br><br>Awgrymodd Bethan Sayed y dylid rhannu tystiolaeth Rhianon am yr angen i ddatganoli cyfiawnder a phlismona i Gymru gyda'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.<br><br>Awgrymwyd y gallai'r grŵp ganolbwyntio'n benodol ar y gwasanaeth prawf mewn cyfarfod diweddarach. Dywedodd Rhianon fod y gwasanaeth prawf yn cael ei danariannu a'i or-ymestyn. Ychwanegodd fod yr aildroseddu cyson ymhlith cyflawnwyr yn dangos bod y gwasanaeth yn methu.<br><br>Tynnodd Leila Usmani sylw at bwysigrwydd ystyried profiadau menywod o leiafrifoedd ethnig a mabwysiadu agwedd groestoriadol. Mae uwch-gŵyn ar y gweill ar hyn o bryd ynghylch sut mae'r heddlu'n ymdrin ag achosion o gam-drin rhywiol ymhlith menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin ar sail anrhydedd.<br><br>Nododd Allie Iftikhar fod rhwydwaith goroeswyr Cymorth i Ferched Cymru yn ategu'r pryderon ynghylch y system gyfiawnder a gafodd eu mynegi yn ystod y cyfarfod.<br><br>Nododd Alison Parker fod Prifysgol Caerdydd wedi dechrau edrych yn fwy manwl ar drais domestig, aflonyddu rhywiol a chasineb tuag at fenywod, a'i bod yn bwriadu cynnal cynhadledd ym mis Medi. Dywedodd ei bod yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer siaradwyr a phynciau i'w trafod yn ystod y gynhadledd. |
| **4** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru) –** Jackie Jones<br><br>Tynnodd Jackie Jones sylw at yr effaith ddinistriol y gallai Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ei chael yng nghyd-destun diogelu hawliau menywod a chydraddoldeb rhywiol yn y DU a Chymru. Mae'r Bil yn cynnwys "ymyl clogwyn" arfaethedig ar 31 Rhagfyr 2023, sy'n golygu y gallai amddiffyniadau a enillwyd drwy waith caled gael eu colli dros nos, gan gynnwys mesurau sy'n ymwneud â chyflog cyfartal, polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd, beichiogrwydd a gweithio rhan-amser.<br><br>O ran y cynnydd a wneir o fewn yr UE, mae'r gyfarwyddeb ynghylch menywod ar fyrddau cwmnïau yn adnodd hanfodol o ran dylanwad menywod ar y broses o annog newid sefydliadol a systemig.<br><br>Mae'r gyfarwyddeb ddrafft ynghylch brwydro yn erbyn trais ar sail rhywedd a cham-drin domestig yn mynd rhagddi, sy'n gam enfawr ymlaen ar ôl blynyddoedd o gael ei rhwystro.<br><br>Mae cyfarwyddeb ddrafft ynghylch triniaeth gyfartal sy'n ymwneud â diweddaru polisïau yn cael ei rhwystro ar hyn o bryd, ond mae wedi'i chyflwyno i Senedd Ewrop.<br><br>Mae Cyngor Ewrop a'r UE wedi bod yn edrych ar ddarpariaethau masnachu mewn pobl ers i'r "Bil Mewnfudo Anghyfreithlon" newydd symud y ffocws i ffwrdd o ddiogelu |

| | |
|---|---|
| | dioddefwyr masnachu i'r masnachwyr.  Mae hyn yn niweidiol gan ei fod yn tanseilio hawliau dynol sylfaenol. Awgrymodd Nancy Lidubwi ei bod yn bosibl gweld eisoes effaith negyddol y "Bil Mewnfudo Anghyfreithlon" ar fenywod sy'n cael eu masnachu i'r DU.<br><br>Dywedodd Jessica Laimann, yn sgil effaith ddifrifol cyfraith yr UE a ddargedwir ar hawliau gweithwyr benywaidd, y gallai fod yn ddefnyddiol ysgrifennu llythyrau at San Steffan yn manylu ar bryderon o'r fath. |
| 5 | **Unrhyw fater arall**<br><br>Dyddiad y cyfarfod nesaf:  9 Mehefin 2023 Awgrymwyd y gallai'r grŵp drafod Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir a'i effaith ar fenywod yn ystod y cyfarfod hwnnw. |
| 6 | *Diwedd* |